Ystlum Lleiaf (Pipistrelle)

CIEEM Chartered Institute of Ecology and Environmental Management

Beth i'w ddisgwyl gydag Arolwg Ystlumod
Canllaw ar gyfer Perchnogion Tai yn y DU

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan yn fras beth mae'n ei olygu pan fydd angen 'arolwg ac adroddiad ystlumod' mewn perthynas â datblygiad ar raddfa fach (ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai) yn y DU. Gall y canllawiau hyn gael eu rhoi i berchnogion tai gan y rhai a gomisiynir i gynnal arolygon, er mwyn rhoi rhywfaint o gefndir i arolygon ac asesiadau ystlumod. Nid yw'r ddogfen hon yn ganllaw i gynnal arolygon ystlumod. Mae rhagor o gyngor am ystlumod ar gael gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (Bat Conservation Trust) neu drwy gyfrwng y Llinell Gymorth Ystlumod Genedlaethol (0345 1300 228).

Os ydych yn tarfu ar ystlumod neu yn amharu ar eu mannau gorffwys efallai eich bod yn torri'r gyfraith. Anaml y mae presenoldeb ystlumod yn atal datblygu rhag digwydd. Efallai y bydd angen addasu'r datblygiad neu ei gyflawni mewn ffordd benodol er mwyn sicrhau bod yr ystlumod yn cael eu diogelu.

Pam fod Angen Arolwg?

Mae niferoedd ystlumod yn y DU wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd ac erbyn hyn mae pob rhywogaeth o ystlumod a geir yn y DU ac Iwerddon a'u mannau gorffwys (clwydfannau) yn cael eu diogelu gan y gyfraith. Felly, pan ystyrir fod prosiect neu ddatblygiad yn debygol o effeithio ar ystlumod neu eu clwydfannau yna mae'n ofynnol cynnal arolwg ac asesiad o effeithiau ar ystlumod. Bydd angen i'r arolwg sefydlu beth yw rhywogaeth a nifer yr ystlumod sy'n debygol o gael eu heffeithio ynghyd ag asesiad o'r effeithiau tebygol ar ystlumod sy'n deillio o'r cynnig datblygu. Mae angen arolwg os yw'ch awdurdod cynllunio lleol, neu eich pensaer, asiant cynllunio neu ecolegydd yn ystyried bod yna debygolrwydd rhesymol fod ystlumod yn bresennol ac fe effeithir arnynt gan y cynnig datblygu. Wrth ddod i'w casgliad efallai eu bod wedi ystyried ffactorau fel natur a graddfa'r datblygiad, addasrwydd strwythurau presennol (e.e. oedran a steil yr adeilad), ac addasrwydd y dirwedd o amgylch ar gyfer ystlumod ac / neu a oes yna gofnodion sy'n bodoli eisoes bod ystlumod yn defnyddio'r ardal.

FFAITH - Mae yna 18 o rywogaethau o ystlumod yn y DU ac Iwerddon. Pipistrelle yw'r ystlumod lleiaf, yn pwyso tua 5 gram (yr un fath â darn £ 1). Y mwyaf yw'r Ystlum Mawr gyda lled adenydd o 33-45cm.

Pwy sy'n cynnal ac yn gyfrifol am Arolwg?

Cyfrifoldeb perchennog y tŷ neu'r ymgeisydd cynllunio yw trefnu a thalu am yr arolwg. Os oes gan yr ymgeisydd asiant efallai y byddant yn gallu trefnu i'r arolwg gael ei wneud ar eu rhan. Bydd angen ei wneud gan ecolegydd sy'n brofiadol wrth gynnal arolygon ac asesiadau ystlumod. Mae Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) yn darparu cyfeiriadur chwiliadwy o ecolegwyr proffesiynol yn y DU ac Iwerddon (www.cieem.net/members-directory). Efallai y bydd angen i'r ecolegydd fynd at eich canolfan gofnodion lleol ar eich rhan i gael cofnodion o ystlumod yn yr ardal. Bydd disgwyl i chi dalu am y costau a godir gan y ganolfan cofnodion am hyn.

Beth mae Arolwg yn ei gynnwys?

Gellir rhannu arolygon i ddwy wedd arwahanol:

Arolygon dydd

Ystlum Mawr

Bydd angen i ecolegydd gynnal arolwg yn ystod y dydd a chwilio am:

- ***Arwyddion bod ystlumod wedi neu yn defnyddio'r adeiladau, strwythurau neu goed;***
- ***Nodweddion mewn adeiladau / strwythurau a choed a allai o bosibl gynnig lle clwydo; ac***
- ***Addasrwydd yr ardal o gwmpas i ystlumod.***

Bydd yr ecolegydd yn awyddus i edrych ar y tu mewn a'r tu allan i'r holl adeiladau gan gynnwys y twll yn y to / llofftydd, adeiladau allanol neu seleri ayyb. Efallai y byddant yn defnyddio ysgolion i archwilio'r to a'r bondo ac endosgop (camera bach trwch pensil) a fydd yn eu galluogi i edrych yn agosach ar y mannau bach hynny lle gallai ystlumod eu defnyddio ond nid ydynt yn bethau hawdd gweld i mewn iddynt fel arfer. Gall y cam cyntaf gael ei wneud ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd yr ecolegydd yn gallu dod i'r casgliad ar yr adeg hon fod potensial dibwys i ystlumod ddefnyddio'r adeilad, strwythurau neu goed yr effeithir arnynt gan y cynnig datblygu, ac os felly nid oes unrhyw arolygon pellach yn debygol o fod yn angenrheidiol.

Arolygon Ymddangosiad a Dychweliad

Yr ail gam yw cynnal arolwg 'ymddangosiad a dychweliad'. Bydd yr arolygon hyn yn hanfodol o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- ***Tystiolaeth o ystlumod wedi'i chanfod yn ystod yr arolwg dydd; neu***
- ***Nid oedd modd dod i'r casgliad y gellid anwybyddu'r posibilrwydd i ystlumod ddefnyddio'r adeilad(au), strwythur(au) neu'r goeden / coed yr effeithir arnynt gan y cynnig datblygu (nid yw arwyddion o ystlumod yn y maes bob amser yn weladwy, mae'n dibynnu ar strwythur yr adeilad neu'r goeden, ac felly efallai y bydd angen cynnal arolygon pellach i gadarnhau eu presenoldeb neu absenoldeb tebygol yn hyderus).***

Diben yr arolygon hyn yw gweld a oes ystlumod yn ymddangos neu'n dychwelyd i'r strwythur, pa nifer, pa rywogaethau ac ym mhle. Mae'r arolygon hyn yn golygu bod yn rhaid i'r ecolegydd / ecolegwyr sefyll y tu allan i'r adeilad yn chwilio am ystlumod ac yn gwrando amdanynt gan ddefnyddio synhwyrydd ystlumod pan fydd ystlumod yn fwyaf tebygol o fod yn defnyddio'r safleoedd clwydo, tuag adeg y wawr a'r gwyll. Yn dibynnu ar faint a gosodiad yr adeilad (neu strwythur arall), efallai y bydd angen nifer o arolygwyr er mwyn gwylio pob un o'r pwyntiau ymddangosiad a dychweliad tebygol. Ni ellir cynnal yr arolygon hyn ond pan fydd yr ystlumod yn weithredol, fel arfer dros fisoedd yr haf ac yn ystod tywydd 'da' ar gyfer ystlumod (sych, mwyn, ddim yn wyntog). Efallai y bydd hefyd angen cynnal yr arolygon hyn fwy nag unwaith; bydd yr ecolegydd yn gallu rhoi cyngor pellach ar y gofynion tebygol yn dilyn yr arolwg dydd a'r canllawiau arfer gorau mae'n bwriadu eu dilyn.

Gall fod yn bosibl cynnal yr arolwg dydd ac yna'r arolwg ymddangosiad cyntaf yn ystod yr un ymweliad; cyn belled ag y bo'r amodau a'r adeg o'r flwyddyn yn gywir.

Ystlumod Pedol Mwyaf

Beth sy'n digwydd ar ôl cwblhau'r arolwg?

Ar ôl yr arolwg, bydd yn rhaid i'r ecolegydd ysgrifennu adroddiad sy'n nodi sut a phryd y cynhaliwyd yr arolwg, beth y canfuwyd, effaith y datblygiad ar ystlumod, ynghyd â'i argymhellion. Os deuir i'r casgliad bod ystlumod yn bresennol, bydd angen datblygu 'strategaeth lliniaru', a all olygu bod angen ymgymryd â'r gwaith datblygu ar adegau penodol o'r flwyddyn, defnyddio deunyddiau a / neu ddarpariaeth benodol i alluogi'r ystlumod i barhau i ddefnyddio'r glwyd wreiddiol neu un newydd.

Gwelliant

Nod y polisïau cynllunio cenedlaethol yw sicrhau bod datblygiadau'n gwella bioamrywiaeth. Pa un a yw eich adroddiad ystlumod yn dod i'r casgliad y bydd y datblygiad yn effeithio ar ystlumod ai peidio, dylech ystyried ymgorffori nodweddion gwella yn yr adeiladau ar gyfer ystlumod. Gall y rhain fod mor syml â 'brics ystlumod' a chlwydi teils crib - nid ydynt yn ddrud i'w prynu a'u gosod (gweler y ffynonellau pellach o wybodaeth isod).

FFAITH - Mae ystlumod yn defnyddio cri amledd uchel sydd fel arfer y tu hwnt i gwmpas clyw dynol. Drwy ddefnyddio synhwyrydd ystlumod gall pobl glywed cri ecoleoliad - ac oherwydd bod gan wahanol rywogaethau gri wahanol gall y ddyfais hon ein helpu i'w hadnabod.

Beth sy'n digwydd ar ôl cael caniatâd cynllunio?

Ystlum Hirglust

Os nad oes modd i'r datblygiad osgoi aflonyddu neu effeithio mewn ffordd arall ar ystlumod, hyd yn oed am gyfnod dros dro, mae'n rhaid cael 'trwydded' i ymgymryd â'r gwaith arfaethedig gan y corff trwyddedu* priodol cyn y gellir symud ymlaen â'r datblygiad. Bydd angen gwneud hyn ar ôl cael caniatâd cynllunio. Bydd angen cyflwyno'r cais am drwydded gan yr ecolegydd ar eich rhan. Bydd eich ecolegydd yn gallu rhoi cyngor pellach i chi ynglŷn â'r broses.

Efallai y byddwch hefyd yn darganfod bod amodau cynllunio ynghlwm wrth eich caniatâd cynllunio, sy'n golygu bod yn rhaid ymgymryd â'r datblygiad mewn ffordd benodol neu yn unol â rhannau o'r adroddiad ystlumod a gyflwynwyd gyda'ch cais.

*Awdurdodau trwyddedu: Natural England; Cyfoeth Naturiol Cymru; Scottish Natural Heritage; National Parks & Wildlife Service Ireland; Northern Ireland Environment Agency

Ffynonellau Pellach o Wybodaeth

Chartered Institute for Ecology and Environmental Management: www.cieem.net
Bat Conservation Trust: www.bats.org.uk **(cliciwch yma am Restr Blychau Ystlumod y BCT)**
Llinell Gymorth Genedlaethol ar Ystlumod: 0345 1300 228
Natural England: www.gov.uk/bats-protection-surveys-and-licences
Cyfoeth Naturiol Cymru: www.naturalresourceswales.gov.uk
Scottish Natural Heritage : www.snh.gov.uk
Northern Ireland Environment Agency: www.doeni.gov.uk/niea
National Parks Wildlife Service Ireland: www.npws.ie/licences

CIEEM yw'r prif gorff aelodaeth proffesiynol sy'n cynrychioli ac yn cefnogi ecolegwyr a rheolwyr amgylcheddol yn y Deyrnas Unedig, Iwerddon a thramor.